

Cyngor Cymuned Mawddwy

Clerc: Mr Huw T. Jones, Henllys, Mallwyd, Machynlleth, Powys. SY20 9HS.

☎ 01650 531 405

E bost: huwjones792@btinternet.com

16eg Mai 2021

Annwyl Gyfaill,

**CYNHELIR CYFARFOD BLYNYDDOL CYNGOR CYMUNED
MAWDDWY Nos Fercher y 26ain o Fai 2021 am 8.00pm** yn y Neuadd,
Dinas Mawddwy.

Yn unol a'r cyfarfodydd diwethaf a gynhaliwyd yn y Neuadd yn 2020, bydd rhaid dilyn canllawiau clir yn ystod y noson drwy fynd i mewn o'r Brif Fynedfa, defnyddio y deunydd diheintio, a cherdded llwybr un ffordd ayyb. Noder hefyd na fydd modd defnyddio'r toiledau.

Cysylltwch gyda mi os oes angen mwy o eglurhad.

Edrychaf ymlaen i'ch gweld.

Yn Gywir,
Huw T Jones
CLERC

AGENDA

1. Croeso'r Cadeirydd a derbyn ymddiheuriadau.
2. Cadarnhau cofnodion cyfarfod y 10fed o Fawrth 2021, (a gyfarfu drwy zoom), gweler gopi yn atodol. Hefyd cadarnhau cofnodion cyfarfod arbennig a gynhaliwyd ar y 23ain o Ebrill 2021 (hefyd drwy zoom) i drafod claddu llwch ym mynwent y Dinas – gweler gopi yn atodol.
3. **Materion yn codi,**
 - a) Materion Priffyrdd.
 - b) Mynwent Dinas Mawddwy.
 - c) Pwyllgor yr Hen Fynwent
 - d) Materion cyllid – yn cynnwys cais Cwmni Nod Glas. Hefyd costau/cydnabyddiaeth Clerc a'r awgrym I sefydlu Pwyllgor Cyllid.
 - e) Pryder am wersylla/sbwriel ar gomin Dolybont
 - f) Gwasanaeth Band Eang.
4. **Ethol Swyddogion.**
 - a) Cadeirydd
 - b) Is- Gadeirydd
 - c) Clerc.
5. **Cadarnhau dyddiadau gweddill cyfarfodydd Cyngor Mawddwy ar gyfer 2021/22.** Hefyd mabwysiadu cod ymddygiad, cadarnhau rheoliadau arianol/sefydlog a'r asesiad risg.
6. **Materion Cynllunio**

7. Materion Cyllid.

- a) Nodi cadarnhau Cyfrifon 2019-20 gan yr Archwilydd allanol, a chyflwyno cyfrifon 2020-21 sydd i'w danfon i'r archwilydd mewnol. Hefyd anfoneb Archwilio Cymru.
- b) Nodi gohebiaeth ac anfoneb y cwmni yswiriant a chadarnhau manylion y gorchudd yswiriant ar gyfer 2021-22 .
- c) Nodi derbyn rhan gyntaf y praesept am 2021, sef £4,750. Trafod cyllideb 2021-22 a nodi ein bod eisoes wedi clustnodi £300 at Eisteddfod y Groglith, £400 I Adran yr Urdd, a £400 I CFFI Dinas Mawddwy o gyllideb eleni.
- d) Cais am arian gan Ty Gobaith.

8. Gohebiaeth – yn cynnwys;

Cystadleuaeth Red Bull 24ain o Orffennaf 2021– a phenderfyniad y Cyngor Cymuned drwy e-bost ym mis Ebrill eleni.

9. Ystyried y camau nesaf yng nghyswllt **Cynghorydd i Ward Aberangell**. (byddwch yn cofio l'r Cyngor benderfynnu ar yr 2ail o Fedi 2020 I ail-ystyried yn Gwanwyn 2021)

10. **Torri gwair mynwentydd Mallwyd, Dinas Mawddwy a Llanymawddwy 2021** – cadarnhau y trefniadau.

11. Unrhyw fater arall